

RHONDDA CYNON TAF ADRODDIAD BLYNYDDOL Y CYNGHORYDD

Dyma adroddiad y Cyngorydd Jayne Brencher isod ynglŷn â'i gweithgareddau allweddol dros y flwyddyn yn dod i ben 2017/2018. Mae'n cael ei gyhoeddi er gwybodaeth i'r holl etholwyr ac nid at unrhyw ddiben arall.

Cyngorydd: Jayne Brencher

Ardal etholiadol: Ward Y Graig

Grŵp Gwleidyddol: Llafur - Pontypridd

Adran 1: Swyddogaeth a Chyfrifoldebau

Aelod Etholedig o Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf

Aelod Etholedig o Gyngor Tref Pontypridd

Llywodraethwr Ysgol - Ysgol Gynradd Coed-y-lan.

Ymddiriedolwr - datblygu YMCA

Aelod o Ymddiriedolaeth Rhwydweithio Tramor rhwng Partneriaethau (PONT)

Aelod o'r Cyngor Iechyd Cymuned yn eistedd ar Barc Iechyd Dewi Sant ac yn cefnogi teuluoedd lleol / adolygu darpariaeth iechyd.

Yn cynrychioli Rhondda Cynon Taf ar Grŵp y Coalfields Alliance - llais i RCT ar fwrdd sy'n cynrychioli cyn ardaloedd glofaol ar draws y DU.

Aelod o'r Pwyllgor Craffu – Plant a Phobl Ifainc, Rhondda Cynon Taf

Aelod o'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu

Aelod o Bwyllgor Llywodraethwyr Ysgolion yr Awdurdod Addysg Lleol

Aelod o Grŵp Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol sy'n gyfrifol am addysg grefyddol mewn ysgolion.

Cadeirydd Cyngor Tref Pontypridd - Pwyllgor Staffio

Aelod o Grŵp Gweithredu Ffrindiau Dementia Pontypridd- Pob asiantaeth.

Aelod o Bwyllgor Canolfan Cymunedau'r Graig - Wedi'i gychwyn gennyf i.

Adran 2: Gweithgaredd yn yr Etholaeth

Mae gwella amgylchedd y Graig yn cynnwys sefydlu grwpiau cymunedol i adnewyddu ac ehangu'r defnydd o ganolfan y gymuned. Prosiect peintio cymunedol - Wood Road a glanhau ardaloedd cymunedol/ plannu blodau.

Gweithio fel rhan o Grŵp Adnewyddu Parc Albert Road/Pwll Shoni; mynd i'r afael â phroblemau draenio yn RhCT; lloïo'n weithgar ar ran trigolion ar faterion parcio a goryrru gan gynnwys lloïo'n weithgar am derfynau cyflymder o 20 mya; gweithio tuag at gytuno Pentref Gofal Penycoed; cefnogi ystod o weithgareddau elusennol yn y Queens Head ac mewn eglwysi lleol - Sant Ioan/Temple/Santes Catrin.

Cysylltu â Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu a Heddlu a Chymunedau Gyda'i Gilydd i fynd i'r afael â materion ymddygiad gwrth-gymdeithasol ar draws y ward/canol y dref.

Gweithio gydag AM/PM i fynd i'r afael â materion cynllunio, adnewyddu twnnel, y Stryd Fawr.

Gweithio gyda Phrifysgol De Cymru - Mabwysiadu llwybr, teithiau cerdded Y Graig, gweithgareddau i blant. Manteision a chymorth.

Adran 3: Mentrau a Gweithgareddau Arbennig

Fel Aelod o'r Pwyllgor Craffu - Plant a Phobl Ifainc, roeddwn i'n rhan o weithgor yn mynd i'r afael â Thlodi Misglwyf ar draws Rhondda Cynon Taf drwy gyd-weithio ag ysgolion lleol. Canlyniad hyn oedd cynhyrchion glanweithdra am ddim i ddisgyblion benywaidd mewn Ysgolion Cynradd ac Uwchradd ar draws RhCT. Cafodd yr ymgyrch effaith ehangach ar draws Gymru.

Fel gwirfoddolwr ar Gyngor Iechyd y Gymuned, rydw i'n cynrychioli pobl leol ar bryderon iechyd a materion uniongyrchol fel parcio/mynediad cleifion yn Y Graig.

Sefydlu Parc Iechyd Dewi Sant a'i gysylltu â'r gymuned leol gan ddarparu gofal iechyd 'siop un stop'.

Hyrwyddo ar gyfer rhieni lleol / teuluoedd sy'n gweithio gan ymestyn darpariaeth gofal plant â chymorth, cludiant ysgol a chynyddu gweithgareddau / cyfleoedd.

Adolygiad o safle cynllunio Marks & Spencer a datblygiad canol y dref.

Adran 4: Dysgu a Datblygu

Rydw i wedi mynychu Cynadleddau Datblygu Aelodau cyn Cyfarfodydd Cyngor lle mae cyflwyniadau wedi cael eu gwneud ar faterion megis Diogelu Data, Dŵr Cymru, Swyddfeydd Cyngor ar Bopeth, Trevalis, Cydraddoldeb.

Rydw i wedi mynychu cyrsiau Hyfforddiant Craffu.

Cynhadledd i gynghorwyr o bob cenedl - Caerdydd.

Seminar Cyngor Iechyd Cymuned - Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf / Llywodraeth Cymru - Canolfan Gymunedol Glyn-coch.

Mynychu cyfarfodydd Coalfield Alliance yng Nglynebwy, Caerffili, Merthyr Tudful a'r Senedd yn nodi materion / adroddiadau sy'n effeithio ar ein cymunedau.

Mynychu sawl sesiwn ymgynghori ar ddemocratiaeth leol / arloesi yn y cymoedd, datblygu canol trefi - RhCT / Llywodraeth Cymru.

Adran 5: Gweithgareddau a Materion Eraill

Cymuned YMCA / ARTIS / mentrau Cyngor Tref Pontypridd yn gweithio gyda grwpiau lleol a charfan yr Ardal Gwella Busnes i hybu'r dref a chefnogi busnesau lleol. Trosolwg o'r YMCA a'r datblygiad fel ymddiriedolwr. Cefnogi mentrau Cyngor y Dref ar lenyddiaeth plant a'r 'Muni', sefydlu grŵp 'Ponty Arts' er mwyn ehangu cyfleoedd i gymryd rhan yn y celfyddydau ar draws yr ardal. Hefyd, sefydlu cymuned celf Courthouse Street. Aelod o Sefydliad y Merched, Rotari Rhyngwladol a'r Blaid Gydweithredol.

Llwyddiannus yn sefydlu grwpiau i redeg Canolfannau Cymunedol a Phwll Shoni, sefydlu teithiau cerdded lleol a sicrhau arian ar gyfer gweithgareddau. Diwrnod hwyl pêl-droed.